**Yr amseroedd y mae'r drwydded yn caniatáu cynnal gweithgareddau trwyddedadwy**

**ADLONIANT WEDI EI REOLEIDDIO:**
**CHWARAEON DAN DO**
**SUL – IAU: 1100 – 0100 yn ddyddiol.**
**GWE a SAD: 1100 – 0200**

**CERDDORIAETH FYW:**
**GWE a SAD: 2100 – 2400**

**CERDDORIAETH WEDI EI RECORDIO:**
**SUL – IAU: 1100 – 0100 yn ddyddiol**
**GWE a SAD: 1100 – 0200**

**DARPARU LLUNIAETH POETH YN HWYR YN Y NOS:**
**SUL – IAU: 2300 – 0100 yn ddyddiol**
**GWE a SAD: 2300 – 0200**

**CYFLENWI ALCOHOL:**
**SUL – IAU: 1100 – 0100 yn ddyddiol**
**GWE a SAD: 1100 – 0200**

**Oriau agor y safle**

**SUL – IAU: 1100 – 0130 yn ddyddiol**
**GWE a SAD: 1100 – 0230**

**Os yw'r drwydded yn caniatáu cyflenwi alcohol, a yw hyn yn golygu ar gyfer yfed ar y safle neu oddi yno**

**AR AC ODDI AR Y SAFLE**

## Atodiad 2 – Amodau sy’n gyson â’r Rhestr weithredu

**Trwydded Safle’n amodol ar yr amodau ymhlygedig a addaswyd dan Ddeddf Trwyddedu 1964.**

### Hyrwyddo’r Amcanion Trwyddedu

**a) Cyffredinol - pob un o’r pedwar amcan trwyddedu**

Byddwn yn sicrhau bod digon o staff yn gweithio ar bob achlysur, gan wirio ein bod yn cydymffurfio â’r rheoliadau cyfredol o ran ffactorau megis rhagofalon tân, allanfeydd brys a pharcio yn rheolaidd. Byddwn hefyd yn sicrhau bod trefnwyr achlysuron cymdeithasol a theuluol yn ystyried unrhyw ffactorau perthnasol.

**b) Atal trosedd ac anrhefn**

O gofio bod y pentref dan sylw yn cynrychioli cymuned wledig sydd wedi’i rheoleiddio’n dda, nid ydym yn rhagweld problem gynyddol yn ymwneud â throsedd ac anrhefn. Mae mwyafrif y digwyddiadau yr ydym am eu cynnig wedi’u hanelu at deuluoedd a chlybiau ac yn rheoli eu hunain i raddau helaeth. Bydd alcohol yn parhau i gael ei werthu am bris safonol, heb hysbysebu na gostwng y pris yn unswydd.

**c) Diogelwch y cyhoedd**

Gydag un drws dwbl a dau ddrws sengl sy’n agor tuag allan, rydym yn ystyried ei bod yn briodol cyfyngu’r nifer sy’n bresennol yn yr adeilad i 150 o bobl.
Lleolir diffoddwyr tân fel y nodir yn y cynllun amgaeedig a byddant yn parhau i gael eu gwasanaethu yn rheolaidd.
Bydd Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus ar waith.

**d) Atal niwsans cyhoeddus**

Byddwn yn sicrhau nad yw cerddoriaeth uchel yn creu niwsans, ond o ystyried lleoliad y sefydliad nid yw hyn yn debygol o fod yn broblem.
Dim mynediad ar ôl 23:00.
Bydd y drysau a’r ffenestri yn aros ar gau pan fydd cerddoriaeth fyw neu gerddoriaeth wedi’i recordio yn chwarae, ac yn ystod unrhyw ddigwyddiad ar ôl 23:00.

**e) Amddiffyn plant rhag niwed**

Caniateir plant dan 16 yng nghwmni oedolion yn yr ardal a nodir ar y cynllun a ddarperir ar gyfer cerddoriaeth a dawnsio pan fo hynny’n briodol. Fodd bynnag, bydd angen iddynt fynd drwy ardal y bar er mwyn mynd i’r tai bach.

Plant dan 18 oed i gael eu gwahardd ar ôl 21:00

